

Hafan
Pori
Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd
Chwiliad testun rhydd

English

Llinell Amser English

ADAM 'de USK' (1352? - 1430), Adam Usk ' yn ysgrifeniadau ei oes, gwr o'r gyfraith

Enw: Adam 'de Usk'
Dyddiad geni: 1352?
Dyddiad marw: 1430
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gwr o'r gyfraith
Maes gweithgaredd: Cyfraith
Awdur: John Edward Lloyd

Hanoedd o dref Caerbuga (Usk), ar lan afon Wysg. Yr oedd yn ddyledus am ddechrau ei yrfa i **Edmund Mortimer, iarlwr March**, a gawsai arglwyddiaeth Usk fel rhan o etifeddiaeth ei wraig Philippa; talodd ef drosto (1369) i fynd i ddysgu'r gyfraith sifil a chanon yn Rhydychen. Yng nghwrs amser, cymerth radd doethur yn y gyfraith a dyfod yn athro'r gyfraith yn y brifysgol; yno, fel y dywed ef ei hun, bu a rhan fawr yn yr ymladdfeydd ag arfau a fu yn y cyfnod 1388-9 rhwng y Gogleddwyr a'r Deheuwywr (yn cynnwys y Cymry). Yn ddiweddarach ymadodd a Rhydychen pan wasanaethu am saith mlynedd fel dadleuydd cyfreithiol yn llys archesgob Caergaint.

Ei gysylltiad ag iarlrl Arundel a benderfynodd ei agwedd wleidyddol. Yr oedd ganddo sedd yn Senedd 1397; yn ei groncl nid ydyw'n celu ei elyniaeth tuag at Richard II a'i gefnogwyr. Pan gafwyd tro ar fyd yn 1399, yr oedd ef gyda'r blaidd fuddugol; teithiodd gyda Harri IV a'r archesgob o Fryste i Gaer, ac ar y daith setlodd gweryl rhwng iarlrl Lancaster a'i gyfeillion ef ei hun yng Nghaerbuga. Yr oedd yn aelod o'r comisiwn a benodwyd i ddarganfod rhesymau cyfreithiol o blaid diorseddu Richard II; a gwelodd a chlywodd Adam y brenin hwnnw pan oedd yn garcharor yn Nhwr Llundain.

T'r oedd priffordd llwyddiant bellach yn agor a'u o'i flaen, a derbynai taliadau o goffrau'r Eglwys heblaw'r hyn a enillai wrth ei briod waith. Eithr daeth un o'r taliadau hyn ag ef i drybini; mynnai Walter Jakes (alias Amprey) nad oedd gan Adam hawl ddigonol i ganoniaeth Llandygwydd (Sir Aberteifi) yn ngholeg Abergwyl, a ddaethai i feddiant Jakes ei hunan yn 1399 trwy gyfnewid. Dyma'n ddau achos yr ymrafael rhyngddynt yn Westminster ym mis Tachwedd 1400 pryd y gwytsiwyd Adam a'i gwmmi a'u cyhuddo o laddrad-pen-ffordd. Ni wyddys beth a ddaeth o'r achos hwn; sut bynnag am hynny ni pheidiodd Adam a'i waith fel cyfreithiwr. Yn gynnar yn 1402, serch hynny, am ryw reswm neu'i gilydd penderfynodd Adam adael y wlad a mynd i aros yn Rhufain, lle y caffai ei wybodaeth a'i fedr fel cyfreithiwr eu gwerthfawrogi a'u cydnabod yn deilwng. Cafodd ganiatâd y brenin i fynd, ac fe gychwynnodd ar 19 Chwefror.

Nid hir y bu cyn ennill ffafr y pab; yr oedd, y Ionawr 1403, wedi gofalu cael pardwn y brenin am y camwedd yn Westminster. Yr oedd Boniface IX ac yn enwedig Innocent VII yn barod i roddi esgobaeth ym Mhrydain iodd. Eithr yn awr, efforall o achos gwrthryfel Glyn Dwr, wynebai Adam elyniaeth chwernw'r brenin. Amhosolidd oedd iddo ddychwelyd i Loegr; daeth siomiedigach arall i'w ran pan dorrodd allan gythrwyl yn Rhufain yn Awst 1404 a barodd i'w pab gael ei erlid o'r ddinas ac amharu yn ddifrifol ar amgylchiadau tymhorol Adam. Parodd y profiadau hyn, ynghydag afiechyd peryglus, iddo feddwl eto am ei gartref; gadawodd Rufain ym mis Mehefin 1406 a throï tua Bruges. Â'r drws eto wedi ei gau rhagddo, treuliodd ddwy flynedd yn Ffrainc a Fflandrys, gan ennill ei fara trwy gyfrwng y gyfraith. Pan oedd yn Bruges bu'n tueddu i wrando ar gais iarlwr Northumberland, a oedd y pryd hynny yn cynyllwyl yn erbyn y brenin; eithr ymatolidd Adam rhag bod â chyfran ganddo yng nghwmpwr yr iarlwr.

Yn 1408 hwyliodd am Gymru, gan lanio yn Abermaw a gobeithio, fel y dywed ef ei hun yn ei gronici, gyrraedd cyn belled ag arglwyddiaeth Powys, a oedd ar y pryd yn llaw **Edward Charlton**, gwr a gwsai arglwyddiaeth Usk pan briododd ei wraig gyntaf. Os hyn oedd ei wir amcan - ac y mae'n amlwg fod **Owen Glyn Dwr** yn mawr ddrwg-dybio gwrogaeth Adam - fe lwyddodd yn hynny, a bu'n byw am rai blynyddoedd, o dan nawdd **Charlton**, yn gaplan tlawd yn y Trallwng. Gorfu iddo ddisgwyl hyd fis Mawrth 1411 am bardwn brehinol llawn a'i gollyngodd yn rhydd unwaith yn rhagor gyda chyffe i ailadeiladu ei fuddannau personol.

And yr oedd anterth ei dyddyd drosodd a thuliodd weddill ei oes mewn dinodedd gan mwyafr. Bu farw'n gynnar yn 1430 a'i gladdu yn eglwys priordy Caerbuga, lle y gwelir ei feddysgrifen, ar fesur cwydd, hyd heddiw. Y mae ei ewylllys fwyf wedi ei chadw. Gadawodd gymynroddion i amryw achosion crefyddol yn esgobaeth Llandaf ac i bersonau yn dwyn enwau Cymreig. Yn eu plith yr oedd ei ysgutor a'i gâr, Edward ab Adam; cafodd ef gopi Adam o lawysgrif 'Polychronicon' Ranulf Higden; y mae'n debyg iddo adael gyda'r llawysgrif hon ddefnyddiau ar gyfer ei gronfil ef ei hun hyd y flwyddyn 1421 - defnyddiau a ysgrifennwyd gan amryw ysgrifennwr, tuag ugain mlynedd yn ddiweddarach, yn y gyfrol hon ei hun. A'r cronol hwn sy'n crynfil fwyaf am enwogrwydd Adam. Ceir ynddo fanylion tramor a hefyd ei hanes ef ei hun; y mae'n wir werthfawr am gyfnod mudiad **Glyn Dwr**. Fe'i golygwyd gan Syr E. Maunde Thompson yn 1876 o B.M. Add. MS. 10104; yn 1904 gallodd y golygydd hwnnw ychwanegu'r diwedd coll o un o lawysgrifau Belvoir.

Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

Ffynonellau

Rhagarweiniad i argraffiad 1904 o'r Cronicle

The Episcopal Registers of the Diocese of St. David's, 1397–1518 (1917–20), 118

Y Cymmrodor, xxxi, 112-34

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Adda o Frynbuga**

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 91646005

Wikidata: Q4680071

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Lloyd, J. E., (1953). ADAM 'de USK' (1352? - 1430),' Adam Usk ' yn ysgrifeniadau ei oes, gwr o'r gyfraith. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 17 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ADAM-OFU-1352>



Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION

